**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**

**Prosesu Teg / Datganiad Preifatrwydd**

## 1. Sut mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn defnyddio data personol?

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Cyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael, cadw, defnyddio a datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerwn i sicrhau y caiffei diogelu, ac mae hefyd yn esbonio'r hawliau sydd gan unigolyn mewn perthynas â'I ddata personol a ddelir gan y gyfarwyddiaeth.

Mae'r broses o ddefnyddio a datgelu data personol wedi'i llywodraethu gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Fel y cyfryw, mae rheidrwydd ar y gyfarwyddiaeth i sicrhau ei bod yn ymdrin â'r holl ddata personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau yr ymdrinnir â data personol yn briodol i sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y gyfarwyddiaeth.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn prosesu gwybodaeth bersonol I'w galluogo i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n ymwneud ag addysg a gwasanaethau cymorth i bobl leol sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Gwella ysgolion a safonau.
- Moderneiddio ysgolion.
- Darpariaeth addysg ôl -16.
- Derbyniadau i ysgolion.
- Prydau Ysgol.
- Prydau gartref.
- Trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol/coleg.
- Cymorth llywodraethu ysgolion.
- Gwasanaethau cerddoriaeth i ysgolion.
- Dysgu ac ymgysylltu Cymunedol.
- Gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Gwasanaethau cymorth i ddisgyblion/dysgwyr, gan gynnwys cymorth i ddisgyblion/dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac ymyrraeth gynnar.
- Gwasanaethau cymorth ieuenctid.
- Trwyddedu cyflogaeth plant.
- Trwyddedu perfformiadau plant.
- Iechyd a diogelwch.

## 2. Pa fath o ddata personol yr ydym yn ymdrin ag ef a chan bwy?

Wrth weithredu ei gwasanaethau, mae'r gyfarwyddiaeth yn casglu a defnyddio gwybodaeth ynglŷn â’r canlynol:

- Ein gweithwyr a gweithwyr sefydliadau sydd dan gontract i ni ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys eu rhieni/gofalwyr neu gynrychiolwyr ac aelodau teulu.
- Darparwyr gwasanaethau allanol.
- Llywodraethwyr ysgolion ac unigolion eraill sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau yn wirfoddol.
- Achwynwyr a'u cynrychiolwyr.
- Troseddwyr a throseddwyr dan amheuaeth.
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol.
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill.

Rydym yn cadw data sydd yn gymwys a pherthnasol i bwnc y trafodiad ac unrhyw. Wrth gynnal ein gwaith, byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol.

- Gwybodaeth bersonol (megis enw, dyddiad geni, rhif unigryw disgybl, rhifunigryw dysgwr a chyfeiriad).
- Perthnasau (megis enw rhieni/gofalwyr a pherthnasau neu gysylltiadau eraill) a manylion cyswllt.
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith gyntaf, cenedligrwydd, gwlad enedigol, crefydd a chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim).
- Hanes ysgol/addysg y disgybl/dysgwr gan gynnwys presenoldeb, asesiadau a chyraeddiadau.
- Gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol.
- Cyflyrau meddygol / gwybodaeth (megis alergedd).
- Anableddau.
- Hanes ysgol disgybl/dysgwr.
- Gwybodaeth ynghlch a yw’r disgybl/dysgwr yng ngofal unrhyw awdurdod lleol.
- Gwybodaeth ynghlch a yw’r disgybl/dysgwr yn derbyn cymorth gan asiantaethau eraill.
- Unrhyw faterion neu broblemau sydd wedi codi yn yr ysgol/sefydliadau addysg a chamau a gymerwyd mewn ymateb (megis materion ymddygiad, gwaharddiadau ac ati).
- Gwybodaeth/cofnodion cwnsela.
- Gwybodaeth ariannol (megis balans taliadau prydau ysgol).
- Lluniau, a all gynnwys lluniau ffotograffig a lluniau CCTV.

## 3. O ble rydym yn cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir or dan adran 1 uchod, gall y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc gael, defnyddio a datgelu data personol gan y canlynol:

- Unigolion eu hunain (yn arbennig, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd) Cynghorwyr awdurdodau lleol.
- Perthnasau, gofalwyr/gwarchodwyr neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, gangynnwys cynrychiolwyr.
- Ysgolion, sefydliadau addysg a hyfforddi a chyrff arholi.
- Llywodraethwyr Ysgol.
- Gyrfa Cymru.
- Unrhyw un sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth yn wirfoddol.
- Troseddwyr a throseddwyr dan amheuaeth.
- Cynrychiolwyr cyfreithiol.
- Unigolion sy'n gysylltiedig ag ymholiadau neu gwynion a'u cynrychiolwyr, gan gynnwys tystion.
- Cyflogeion ac asiantau CBSP.
- Consortia addysg.
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr busnes neu broffesiynol.
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol.
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
- Sefydliadau/awdurdodau erlyn ac amddiffyn.
- Llysoedd/ gyrff tribiwnlys.
- Carchardai.
- Gwasanaeth Prawf.
- Sefydliadau cymeradwy a/neu dan gontract a phobl sy'n gweithio gya'r cyngor.
- Archwilwyr a chyrff/awdurdodau rheoleiddio, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Llywodraeth Cymru, a'i hasiantaethau ac adrannau cysylltiedig.
- Sefydliadau ac adrannau llywodraeth leol.
- Cyrff cyhoeddus eraill.
- Darparwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles.
- Ymarferwyr, cynghorwyr neu weithwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles proffesiynol.
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn.
- Gwasanaethau brys.
- Cyflenwyr/darparwyr nwyddau/gwasanaethau.
- Sefydliadau ymchwil arolwg.
- Cymdeithasau masnach/cyglofwyr/proffessiynol a chyrff proffesiynol.
- Proseswyr data sy'n gweithio ar an CBSP.
- Canolfannau rhannu amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd.
- Y cyfryngau.
- Gwybodaeth ar gael yn agored ar y we.

- Adrannau eraill o fewn y cyngor.

### 4. Sut ydym yn ymdrin â data personol?

Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn ymdrin â data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn arbennig byddwn yn sicrhau yr ymdrinnir â data personol yn deg a chyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym, neu ar ein rhan, o'r safon uchaf yn ôl cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a di-ormodedd, ei fod yn cael ei ddiweddaru yn ôl y gofyn, yn cael ei ddiogelu'n briodol, ac yn cael ei adolygu, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan na fydd gofyn amdano mwyach.

### 5. Sut ydym yn sicrhau diogelwch data personol?

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn cymryd yr holl ddata personol sydd dan ei rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn sicrhau bod polisïau, hyfforddiant, mesurau technegol a gweithredol priodol ar waith, gan gynnwys archwilio a monitor cyfanrwydd, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth â llaw ac electronig rhag unrhyw achosion o golli neu gamddefnyddio data, a byddwn ond yn caniatáu mynediad iddynt pan fydd rheswm cyfiawn dros wneud hynny, ac o dan ganllawiau llym o ran sut y gellir defnyddio unrhyw ddata personol a gynhwysir ynddant. Mae’r dulliau hyn yn cael a’u gwella’n barhaus i sicrhau diogelwch cyfredol.

## 6. I bwy ydym yn datgelu data personol?

Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn rhannu eich data personol ag ysgolion, sefydliadau addysg a hyfforddiant, at ddibenion derbyniadau a darpariaeth addysg. Ym mhob achol byddwn ond yn gwneaud hyn i’r graddau yr ystyriwn fod y wybodaeth yn ofynnol yn rhesymol ar gyfer y dibenion hyn.

O dro i dro, bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn rhannu eich data personol gyda chynghorwyr, darparwyr gwasanaeth ac adrannau gwasanaeth fel y gallent ein cynorthwyo. Ym mhob achol byddwn ond yn gwneaud hyn i’r graddau yr ystyriwn fod y wybodaeth yn ofynnol yn rhesymol ar y diben neu’r dibenion perthnasol.

Yn ychwanegol, lle bo’n ofynnol yn ôl y gyfraith, nei i gyflawni tasg gyhoeddus o dan awdurdod swyddogol y cyngor, gall y gyfarwyddiaeth ranu eich data personol â’r canlynol:

- Perthnasau, gwarchodwyr, gofalwyr, pobl gysylltiedig neu gynrychiolwyr yr unigolyn yr ydym yn prosesu ei ddata.
- Gyrfa Cymru.
- Sefydliadau yr ydym yn ymgysylltu â nhw i ddarparu cymorth a/neu wasanaethau i'r unigolyn yr ydym yn prosesu ei ddata.
- Consortia addysg.

- Unigolion y mae'r gyfarwyddiaeth neu'r Cyngor yn ymgysylltu â hwy I ymchwilio i faterion penodol, megis cwynion.
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
- Sefydliadau/awdurdodau erlyn ac amddiffyn.
- Llysoedd/cyrff tribiwnlys.
- Carchardai.
- Gwasanaeth Prawf.
- Sefydliadau cymeradwy a/neu dan gontract a phobl sy'n gweithio gyda'r cyngor.
- Archwilwyr a chyrff/awdurdodau rheoleiddio, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth.
- Sefydliadau ac adrannau llywodraeth leol.
- Cyrff cyhoeddus eraill.
- Darparwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles.
- Ymarferwyr, cynghorwyr neu weithwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles.
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd.
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn.
- Gwasanaethau brys.
- Cyflenwyr/darparwyr nwyddau/gwasanaethau.
- Sefydliadau ymchwil arolwg.
- Cymdeithasau masnach/cyflogwyr/proffesiynol a chyrff proffesiynol
- Awdurdodau trwyddedu
- Proseswyr data sy'n gweithio ar ran CBSP.
- Canolfannau diogelu amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd.
- Adrannau eraill CBSP.
- Unionwyr colled, broceriaid yswiriant ac yswirwyr.

## 7. Beth yw sail gyfreithiol ein defnydd o'ch data personol?

Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc brosesu eich data personol er mwyn gwneud y canlynol:

- cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol yn rhinwedd ein swydd fel rheolwr data;
- cyflawni rhwymedigaethau dan gontract a chyfreithiol mewn perthynas â pherfformiad contract; a
- prosesu eich data personol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Yn ychwanegol, mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwch wedi rhoi eich cydsyniad penodol i ni brosesu eich data personol.

## 8. Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Mae’r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn cadw data personol am gyn hired â sydd angen at ddiben neu ddibenion eu cadw, ac mae hyn yn unol â Pholisi Cadw Data y cyngor.

## 9. Beth yw fy hawliau mewn perthynas â'm data personol?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

Yr hawl i gael gwybod

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol. Rhaid i’r cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys, dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd’.

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu.
- Y categorïau o ddata personol dan sylw.
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt.
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio.
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu, ac unrhyw wybodaeth syddar gael o ran ei darddiad.

Sylwch fod 'prosesu' yn golygu *gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r cyngor ei gwblhau os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gennych chi.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os gwrthodwyd ef, y rhesymau dros y gwrthod.

Hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sy'n debyg iawn arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Ond dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract y byddwch chi'n barti iddo.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi gaffael a defnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol.

Nid yw'r hawl yn berthnasol ond i'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i'r cyngor.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan y cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

**10. Sut y gallwch gysylltu â ni os oes gennych bryderon?**

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon am y ffordd mae'r cyngor yn delio gyda'i ddata personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor yn unol â'r isod:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Swyddfa Wybodaeth
Swyddfeydd Dinesig Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.gov.uk Ffôn 01656 643565

**11. Pa sefydliadau eraill y gallwch gysylltu â nhw os oes gennych bryderon?**

Gallwch godi pryderon gyda Chomisiynydd Gwybodaeth Cymru. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Cymru 2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400
Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Dechrau'n Deg: trosglwyddo data ar lefel unigolyn i Lywodraeth Cymru

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i unigolion sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg am y ffordd y caiff eu data personol eu prosesu gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud o'r data. Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr amrywiol ffyrdd o ddefnyddio'r data a nodir yn yr hysbysiad hwn.

Bydd rhywfaint o'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn ei chasglu wrth ddarparu eu gwasanaethau yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Y bwriad yw helpu Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwil a dadansoddiad ystadegol i wella'r cymorth sy'n cael ei ddarparu drwy Dechrau'n Deg i bobl Cymru.

https://www.llyw.cymru/dechraun-deg-hysbysiad-preifatrwydd-html